

CYLCHLYTHYR

Dyfarniadau Prosiectau mewn Sefydliadau Addysg Bellach o Gronfa Datblygiadau Strategol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dyddiad: 8 Medi 2015

Cyfeirnod: 15/01

At: Colegau Cymru; Penaethiaid sefydliadau addysg bellach Cymru;
Cydlynwyr Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg sefydliadol; Hyrwyddwyr
Dwyieithrwydd sefydliadau addysg bellach

Ymateb Erbyn: Nid oes angen ymateb

Cyswllt: Rhian A. Davies

Mae'r cylchlythyr hwn yn cyflwyno rhestr o'r dyfarniadau diweddaraf o Gronfa Datblygiadau Strategol y Coleg yn 2014/15.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
<http://www.colegcymraeg.ac.uk/cylchlythyr>

Dyfarniadau o'r Gronfa Datblygiadau Strategol

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn cyflwyno rhestr o'r dyfarniadau diweddaraf i'w cefnogi gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol [y Coleg] drwy'r Gronfa Datblygiadau Strategol [y Gronfa].
2. Gwahoddwyd ceisiadau am grantiau o'r Gronfa drwy gylchlythyr a gyhoeddwyd ar 9 Mehefin (Cylchlythyr Cyf:14/10). Derbyniwyd 9 o geisiadau.
3. Ar 20 Gorffennaf 2015, ystyriwyd y ceisiadau gan swyddogion y Coleg ynghyd â Merfyn Morgan (Cadeirydd Grŵp Llywio Colegau Addysg Bellach y Coleg) a Sylvia Davies (ColegauCymru). Mae Cadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg wedi cymeradwyo'r argymhellion. Ceir rhestr o'r grantiau a ddyfarnwyd yn **Atodiad 1**.
4. Rhyddhawyd grantiau gan y Coleg ym mis Gorffennaf ar gyfer y prosiectau sydd wedi eu cefnogi.
5. Cefnogwyd ceisiadau ar sail eu potensial i gynyddu darpariaeth addysg uwch mewn addysg bellach ac ysgogi dilyniant mewn meysydd pwnc perthnasol rhwng y sectorau addysg bellach ac addysg uwch. Roedd y cylchlythyr, wrth wahodd ceisiadau, wedi nodi'n glir y rhoddid blaenoriaeth i:
 - i. nifer y myfyrwyr sy'n elwa;
 - ii. cynyddu darpariaeth addysg uwch mewn addysg bellach;
 - iii. potensial i ddenu myfyrwyr addysg bellach i astudio addysg uwch a chynyddu darpariaeth/dilyniant rhwng addysg bellach ac addysg uwch;
 - iv. perthnasedd i gynlluniau academiaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol;
 - v. potensial i ddatblygu adnoddau fydd o ddefnydd i'r sectorau addysg bellach ac addysg uwch fel ei gilydd.
6. Mae Swyddog Datblygu Prosiectau'r Coleg (Rhian A. Davies 01267 610417 rh.davies@colegcymraeg.ac.uk) wedi cysylltu â'r rheolwyr prosiectau i drafod unrhyw amodau sydd ynghlwm â'r dyfarniad. Gofynnir i'r sefydliadau dderbyn yr amodau a chyflwyno Cynllun Prosiect llawn i'r Swyddog Datblygu, ynghyd ag amserlen bendant ar gyfer cwblhau'r gwaith, **erbyn 12:00, 25 Medi 2015**. Bydd yr amserlen hefyd yn

cynnwys amlinelliad o gamau penodol y prosiect. Cefnogir pob prosiect yn amodol ar dderbyn Cynllun Prosiect llawn.

7. Bydd Swyddog Datblygu Prosiectau'r Coleg yn monitro prosiectau trwy dderbyn Adroddiad Cynnydd tymhorol oddi wrth reolydd pob prosiect. Bydd y Coleg yn derbyn adroddiad ar gyllideb y prosiect unwaith y flwyddyn.
8. Bydd angen cyflwyno Adroddiad Diwedd Prosiect yn nodi cynnyrch y prosiect, ynghyd â manyleb ariannol lawn a gymeradwywyd gan swyddfa gyllid y sefydliad, yn dilyn cwblhau'r prosiect. Yn unol â threfn prosiectau'r Coleg, bydd y Coleg yn ad-hawlio unrhyw danwariant.
9. Mae templedi ar gyfer llunio **Cynllun Prosiect, Adroddiad Cynnydd ac Adroddiad Diwedd Prosiect** i'w canfod ar wefan y Coleg:
<http://www.colegcymraeg.ac.uk/ffurflenni>.
10. Ceisiadau am gyllid am un flwyddyn yn unig a gymeradwyir ac mae hynny'n gyson ag amodau'r Gronfa.

Amodau Cyffredinol

11. **Trwyddedi a hawlfraint:** Trwyddedir adnoddau/cyhoeddiadau ar lwyfannau e-ddysgu'r Coleg o dan drwydded Creative Commons e.e. CC BY-SA 4.0, oni bai bod amgylchiadau arbennig. Cyfrifoldeb rheolwr y prosiect yw sicrhau bod cyfranwyr yn ymwybodol o, ac yn cydsynio i, hyn. Cyfrifoldeb rheolwr y prosiect yw unrhyw waith clirio hawlfraint. Gellir cysylltu â Swyddog Cyhoeddiadau'r Coleg os am wybodaeth bellach ynglŷn â chanllawiau cyhoeddi'r Coleg, sef Mari Fflur 029 2010 9020
m.fflur@colegcymraeg.ac.uk.
12. **Llwyfannau E-ddysgu:** Disgwylir gallu cyhoeddi pob adnodd/cyhoeddiad ar un o lwyfannau e-ddysgu'r Coleg, e.e. Y Porth, Y Llyfrgell Adnoddau, Yr Esboniadur a/neu safle iTunesU y Coleg. Dylai rheolwr y prosiect gysylltu â Rheolwr Gwasanaethau Gwybodaeth y Coleg cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau y datblygir yr adnodd/cyhoeddiad ar ffurf briodol sy'n addas ar gyfer y llwyfan, sef Owain Huw 029 2010 9018 o.huw@colegcymraeg.ac.uk.

13. **Cyhoeddiadau:** Disgwylir i bob cyhoeddiad gydnabod nawdd y Coleg yn unol â chanllawiau cyhoeddi'r Coleg a disgwylir i reolwr y prosiect gysylltu â Swyddog Cyhoeddiadau'r Coleg i wirio manylion perthnasol, Mari Fflur 029 2010 9020 m.fflur@colegcymraeg.ac.uk.
14. **Marchnata/Cyhoeddusrwydd:** Disgwylir i unrhyw waith marchnata/ cyhoeddusrwydd gydnabod nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar bob achlysur, boed hynny mewn print neu ar-lein. Gwelir <http://www.colegcymraeg.ac.uk/brand> ar gyfer copi o logos y Coleg. Dylid sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n gywir yn unol â chanllawiau brand y Coleg. Dylid cysylltu â'r Rheolwr Cyfathrebu i wirio diwyg unrhyw ddeunydd hyrwyddo o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn cyhoeddi, sef Elin Williams 01267 610408 e.williams@colegcymraeg.ac.uk.
15. **Termau:** Os oes gennych ymholiadau'n ymwneud â thermau dylid cysylltu â Therminolegydd Addysg Uwch y Coleg, sef Dr Tegau Andrews t.andrews@bangor.ac.uk. Dilyner y ddolen isod er mwyn gweld yr adnodd - <http://www.colegcymraeg.ac.uk/termau>.
16. **Digwyddiadau Recriwtio:** Disgwylir i bawb sy'n cynnal digwyddiad recriwtio i hybu aelodaeth o'r Coleg (boed i fyfyrwyr, staff prifysgolion, disgyblion ysgol, staff ysgol neu eraill). Bydd dangos tystiolaeth o enwau a rhifau aelodaeth yn allbwn i'r prosiect a dylid cyflwyno'r dystiolaeth honno gyda'r Adroddiad Diwedd Prosiect.
17. **Cynhadledd/Cwrs/Seminar:** Disgwylir i bawb sy'n mynychu neu'n cymryd rhan mewn cynhadledd/cwrs/seminar o dan nawdd y Coleg naill ai ymaelodi â'r Coleg neu dalu ffi lawn. Bydd dangos tystiolaeth o enwau a rhifau aelodaeth yn allbwn i'r prosiect a dylid cyflwyno'r dystiolaeth honno gyda'r Adroddiad Diwedd Prosiect.

Ymholiadau Pellach

18. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ar e-bost at Rhian A. Davies rh.davies@colegcymraeg.ac.uk yn y lle cyntaf.



Rhestrir yn **Atodiad A** y prosiectau a gymeradwywyd gan Gadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg i'w cyllido o gyllideb y Gronfa yn 2014/15:

	Teitl	Sefydliad	Amodau / Camau Nesaf
1	Datblygu menter a chyflogadwyedd trwy gyfrwng y Gymraeg (parhad)	Coleg Pen-y-bont	Cefnogi'r cais.
2	Denu ac Arwain Myfyrwyr Addysg Bellach i ddilyn cyrsiau/modiwlau cyfrwng Cymraeg mewn Addysg Uwch mewn meysydd gwyddorau cymdeithasol (parhad)	Coleg Cambria	Cyllido'n rhannol gydag amodau.
3	Denu myfyrwyr Addysg Bellach i astudio ym maes Amaeth a Busnes mewn Addysg Uwch a hybu cydweithio rhwng y ddwy sector	Coleg Cambria	Cyllido'n rhannol gydag amodau.
4	Dechrau a chynllunio busnes newydd (parhad)	Coleg Sir Gâr	Cyllido'n rhannol gydag amodau.
5	Blas ar Addysg Uwch Maes Awyr Agored a Gwyddor Chwaraeon	Grŵp Llandrillo Menai	Cefnogi'r cais.
6	Diwrnod Blasu Nyrsio Addysg Bellach i Addysg Uwch	Coleg Gŵyr	Cyllido ar raddfa llai.